Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent
Coleg Gwent
Campws Brynbuga
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1XJ

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2015**

## Cyd-destun

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent yn bartneriaeth fawr sy'n cwmpasu pum awdurdod unedol yn ne ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Yn ôl ffigurau o StatsCymru, yn 2014 amcangyfrifwyd mai rhyw 582,000 oedd cyfanswm poblogaeth y pum awdurdod.

Mae'r bartneriaeth yn ymestyn dros ardal amrywiol iawn ac yn cynnwys: dinas Casnewydd; cymunedau Cymoedd de Cymru, sef Glynebwy, Coed-duon, Pont-y-pŵl, Tredegar a Chaerffili; tref newydd Cwmbrân; a Sir Fynwy, sy'n sir wledig yn bennaf, gyda'i chanolfannau poblogaeth sef Y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent.

Mae lefelau amddifadedd yn amrywio gryn dipyn ar draws ardal y bartneriaeth. Mae bron i chwarter o ardaloedd Blaenau Gwent o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae rhyw 15% o ardaloedd Caerffili a Chasnewydd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, a 7% o ardaloedd Torfaen. Nid oes unrhyw un o ardaloedd Sir Fynwy yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae canran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau islaw lefel 2 yn amrywio'n ddramatig hefyd ar draws ardal y bartneriaeth. Ym Mlaenau Gwent, nid oes gan 19.5% o oedolion o oedran gweithio gymwysterau at lefel 2 – sef y lefel uchaf yng Nghymru. Mewn cyferbyniad, mae un o'r lefelau isaf yn Sir Fynwy, sef 11.2%. Y cyfartaledd yng Nghymru yw 14%.

Mae cyflogaeth yn dilyn patrwm tebyg. Ym Mehefin 2014, y gyfradd cyflogaeth gyfartalog i oedolion rhwng 16 a 64 yng Nghymru oedd 69.5%. Ar draws y pum awdurdod a gwmpesir gan y bartneriaeth, Sir Fynwy oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf ar 74.6%, ac yna Casnewydd (70.1%), Caerffili (68.5%), Torfaen (67.7%) a Blaenau Gwent (63.7%).

Yng Nghasnewydd, 11.8% yw canran y bobl o gefndir heb fod yn wyn. Y cyfartaledd yng Nghymru yw 4.0%. Mae'r gyfran o bobl o gefndir heb fod yn wyn yn y pedwar awdurdod arall yn is na chyfartaledd Cymru.

Ar draws bob un o'r pum awdurdod, mae'r gyfran o bobl dros dair oed sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 27%. Yng Nghaerffili y mae'r lefel uchaf, lle mae 21.4% o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Caiff y bartneriaeth ei harwain gan Goleg Gwent ac mae'n cynnwys partneriaid breiniol y coleg: awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol Caerffili, Casnewydd a Thorfaen yn cynnig darpariaeth drwy eu darpariaeth eu hunain a ariennir yn uniongyrchol. Sefydlwyd y bartneriaeth yn ei ffurf bresennol yn Chwefror 2013. Yn 2012-2013, roedd ganddi 16,595 o gofrestriadau wedi'u hachredu, gan leihau i 15,223 yn 2013-2014.

Nid yw'r bartneriaeth wedi cael ei harolygu ar ei ffurf bresennol. Arolygiad o strwythur blaenorol y bartneriaeth oedd yr arolygiad mwyaf diweddar, yn 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r bartneriaeth yn dda oherwydd:

- Mae dysgwyr yn cyflawni safonau da ar eu cyrsiau; mae eu cyfraddau llwyddo yn cymharu'n dda â chymaryddion cenedlaethol
- Mae partneriaid yn gweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio'r cwricwlwm a chysoni'r ddarpariaeth â blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion lleol
- Mae'r addysgu a'r asesu yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o achosion
- Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda; ceir lefel dda o gynllunio strategol ac mae trefniadau da ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn rhagorol oherwydd:

- Mae ganddi hanes da o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr
- Mae ganddi ystod dda o ddarpariaeth sy'n galluogi dysgwyr o ardaloedd blaenoriaeth i gael mynediad i addysg
- Mae ganddi bartneriaeth gadarn ac ethos o gydweithredu rhwng partneriaid ac asiantaethau eraill
- Mae ganddi system gadarn o sicrhau ansawdd, sy'n arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer dysgwyr
- Mae ganddi arweinyddiaeth strategol a chynlluniau gwella clir

## Argymhellion

A1 Cynyddu cyfran y cyrsiau lle mae dysgwyr yn cyflawni cyfraddau llwyddo yn unol â'r gorau yn y sector

A2 Adolygu gweithdrefnau adrodd am ddiogelu a rhoi strategaeth gyffredinol, briodol ar waith ar gyfer monitro diogelu ar draws y bartneriaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r bartneriaeth ddarparu astudiaeth achos o arfer orau i ddangos arfer dda ei gwaith gwella ansawdd, ac arfer dda ymddiriedolaeth elusennol gwasanaeth dysgu oedolion awdurdod lleol Blaenau Gwent i ddarparu dysgu i oedolion.  Bydd yr arolygydd arweiniol y sector ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnal ymweliad monitro ymhen rhyw 12 mis i wirio'r cynnydd y mae'r bartneriaeth wedi'i wneud.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn 2012-2013, cwblhaodd dysgwyr ar draws y bartneriaeth eu cwrs a llwyddo i gyflawni'u cymwysterau ar gyfraddau tebyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer darparwyr tebyg yng Nghymru. Dros y cyfnod tair blynedd o 2010 i 2013, mae'r bartneriaeth wedi dangos cynnydd cyson yng nghyfraddau llwyddo dysgwyr.

Mae data anghyhoeddedig y bartneriaeth ar gyfer 2013-2014 yn gadarn ac yn dangos bod y duedd o lwyddiant cynyddol wedi parhau, gyda chynnydd nodedig yn y gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn cyflawni'u cymwysterau yn y flwyddyn fwyaf diweddar. Mae pob un o'r pum sir yn y bartneriaeth yn dangos tuedd gyson o wella. Mae'r patrwm hwn o gyfraddau llwyddo cynyddol yn cynnwys yn nodedig ddysgwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig y bartneriaeth sy'n llwyddo i gwblhau eu cymwysterau ar gyfraddau tebyg i gyfraddau'r rhai mwyaf cyfoethog.

Mae dynion a menywod a dysgwyr o grwpiau ethnig gwahanol yn cwblhau eu cyrsiau ac yn cyflawni cymwysterau ar gyfraddau tebyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer eu grwpiau.

Fodd bynnag, er bod y patrwm cyffredinol o gyfraddau llwyddo cynyddol yn gyson ar draws y rhan fwyaf o gyrsiau, mewn ychydig o raglenni, fel Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn ychydig o bartneriaid, mae dysgwyr yn dal i lwyddo ar gyfraddau islaw cyfartaleddau cenedlaethol.

At ei gilydd, mae dysgwyr ar draws y bartneriaeth yn ymgysylltu'n dda â'u gwersi ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da. Mae bron yr holl ddysgwyr yn ymwybodol o'u mannau cychwyn a'u nodau dysgu. Maent yn ymateb yn dda i'r tasgau a osodir ar eu cyfer, ac maent yn hyderus i ofyn cwestiynau, yn gwrando'n ofalus a chymryd rhan mewn trafodaethau gyda'u cyd-ddysgwyr a'u tiwtoriaid. Mae dysgwyr ar draws ystod o bynciau yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau trin gwallt sy'n cynnwys dysgwyr dan anfantais yn defnyddio geiriaduron i wirio sillafu eu gwaith ysgrifenedig.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau turnio coed yn datblygu eu medrau ymarferol yn effeithiol ac yn cynhyrchu gwrthrychau mwy a mwy cymhleth wrth iddynt symud drwy'r cwrs. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau celf yn mwynhau dysgu technegau a medrau newydd, ac yn herio'u hunain i gynhyrchu gwaith gwreiddiol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau medrau byw'n annibynnol yn gallu defnyddio'r cyfrifiadur yn dda i ysgrifennu dogfennau syml gyda sillafu a chystrawen brawddegau cywir.

Mae dysgwyr sy'n dilyn dosbarthiadau llythrennedd yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi, ac yn gwella eu darllen, ysgrifennu a'u defnydd o iaith lafar. Gwnânt ddefnydd da o ystod o ddeunydd ysgrifenedig, delweddau a chyfryngau electronig i ddatblygu'u dealltwriaeth o iaith. Mewn dosbarthiadau rhifedd, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau mewn rhagfynegi a dod o gasgliad yn dda, ac yn dysgu

technegau newydd ar gyfer cyfrifo. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau newydd y maent wedi'u dysgu i wella'u bywydau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft drwy helpu eu plant gyda gwaith cartref.

Mae dysgwyr sy'n astudio Saesneg fel ail iaith yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu'u medrau Saesneg yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau'u cwrs yn llwyddiannus, ac mae mwyafrif yn symud ymlaen i gyrsiau pellach ar yr un lefel neu lefel uwch.

Mae dysgwyr mewn ychydig o achosion yn datblygu'u dealltwriaeth o'r Gymraeg ac agweddau ar fywyd Cymreig yn briodol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau eu dosbarthiadau. Maent yn dangos parch at ddysgwyr eraill a'u tiwtoriaid. Maent yn teimlo eu bod yn cymorth da gan eu tiwtoriaid a'u cyfoedion i gyflawni'u nodau dysgu. Maent yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn cynorthwyo ei gilydd i wneud cynnydd. O ganlyniad, mae presenoldeb yn dda yn y rhan fwyaf o sesiynau, ac mae cyfraddau cwblhau yn uchel. Mae dysgwyr yn falch o'u cyflawniadau ac mae gwobrau dysgu oedolion blynyddol yn dathlu eu llwyddiant.

Mae staff mewn canolfannau dysgu yn groesawgar ac mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau dysgu. Mae dysgwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu os oes ganddynt bryderon ynghylch diogelwch, ac maent yn hyderus y byddai'r bartneriaeth yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Mae llawer o ddysgwyr yn meithrin hyder wrth ddysgu ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r buddion a gânt o gyfranogi. Defnyddiant y medrau y maent wedi'u dysgu yn dda iawn mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys gwirfoddoli, cynorthwyo dysgwyr eraill neu hyrwyddo dysgu oedolion. Mae un dysgwr, sydd wedi ffynnu ers iddi ddysgu darllen mewn dosbarthiadau llythrennedd oedolion, yn gwirfoddoli fel cydymaith i drigolyn lleol sydd â nam ar y golwg a nam ar y clyw, gan ddarllen iddi a siarad â hi er mwyn llonni ei bywyd.

Mae dysgwyr eraill yn gwirfoddoli fel cynrychiolwyr dysgu mewn canolfannau, ac yn cyfrannu at redeg eu canolfannau dysgu. Mae ychydig o ddysgwyr ifanc wedi symud ymlaen i fentora ac eiriol dros ddysgwyr ifanc eraill. Mae dysgwyr hefyd yn hyrwyddo cyrsiau drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn helpu recriwtio dysgwyr newydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn adrodd bod eu hiechyd a'u lles wedi gwella drwy'r cyswllt cymdeithasol a gânt mewn dosbarth a'r broses o ddysgu medrau newydd gyda'i gilydd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer dysgu oedolion. Mae'n rhoi ystyriaeth dda i ystod o

wybodaeth i gynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur a gwybodaeth ddemograffig. O ganlyniad, gall y bartneriaeth deilwra'r cwricwlwm yn effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr ar lefel leol. Mae wedi cynyddu cofrestriadau o ardaloedd blaenoriaeth ac mewn pynciau blaenoriaeth dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i helpu dysgwyr godi lefel eu cymwysterau a gwella'u cyflogadwyedd. Mae llawer o gyrsiau'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gyflawni cymwysterau neu gredyd. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys cyrsiau TGAU mewn Saesneg a mathemateg, cyrsiau City and Guilds a chymwysterau Cymdeithas Gyfrifiadura Prydain, yn ogystal â chredydau Agored. Mae'r bartneriaeth hefyd yn darparu cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol penodol fel y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu, cymwysterau cynorthwywyr addysgu CACHE, cyrsiau i yrwyr tacsi a chymwysterau mewn diogelwch bwyd a hylendid. Mae'r bartneriaeth hefyd yn darparu cyrsiau ac yn trefnu clybiau swyddi, sy'n helpu dysgwyr i wella'u CV a'u medrau cyfweliad a chyflwyniad personol.

Mae partneriaid yr awdurdodau lleol yn gweithio'n dda i drefnu a chyflwyno gweithgareddau dysgu sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau ac anghenion lleol. Yng Nghaerffili, mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod helaeth o bynciau fel y celfyddydau, cerddoriaeth, tecstilau, a choginio ar sail adfer cost lawn. Mae'r awdurdod lleol yn Nhorfaen yn rhoi cymorth da iawn i ddysgwyr i sefydlu a chynnal eu clybiau dysgu eu hunain ar gyfer celfyddydau, crefftau ac ieithoedd, ac mae'n darparu cyngor ynglŷn ag iechyd a diogelwch, yswiriant, a sut i reoli cyllid a chyllidebau. Ym Mlaenau Gwent, mae gwasanaeth dysgu oedolion yr awdurdod lleol wedi ymuno ag ymddiriedolaeth elusennol yn ddiweddar i ddarparu dysgu oedolion. O ganlyniad, gall staff godi arian ar gyfer dysgu oedolion nad oedd ar gael yn flaenorol i'r awdurdod lleol, a darparu cyfleoedd dysgu sy'n bwysig i oedolion ym Mlaenau Gwent.

Mae cynllun strategol medrau hanfodol buddiol gan y bartneriaeth, gyda thargedau 'smart'. Mae hwn yn llywio cynlluniau gweithredu ar lefel awdurdod lleol. Mae darparwyr yn monitro cynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredu eu hunain ac yn adrodd bob tymor i grŵp gweithredol y bartneriaeth, sy'n cynhyrchu adroddiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn i'r grŵp strategol. Mae gwaith partneriaeth da iawn rhwng darparwyr medrau hanfodol ac asiantaethau ymgysylltu (er enghraifft, cymdeithasau tai, y Ganolfan Byd Gwaith a Chymunedau yn Gyntaf) yn gwella mynediad dysgwyr i gyrsiau medrau hanfodol ac yn eu helpu i wneud cynnydd da. Fe wnaeth asiantaethau ymgysylltu gyfeirio 569 o ddysgwyr at ddarpariaeth medrau hanfodol yn nhymor yr hydref 2014-2015. Cymerodd llawer o'r dysgwyr hyn ran mewn dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd. Fe wnaethant symud ymlaen hefyd i ddosbarthiadau TGAU, cyrsiau cymorth cyntaf a chlybiau swyddi.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i drefnu a hyrwyddo cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae wedi sefydlu a threfnu ystod o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â Mentrau Iaith lleol. Mae hefyd wedi hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith i addysgu'n ddwyieithog. Mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg wedi gweld hyn yn fuddiol. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi helpu pob un o'r tiwtoriaid i ddatblygu deunyddiau a gweithgareddau cwricwlwm yn y Gymraeg. Mae wedi cynhyrchu pecyn cwricwlwm defnyddiol i diwtoriaid. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwirio ansawdd deunydd Cymraeg y tiwtoriaid eu hunain yn ddigon da.

Mae tiwtoriaid yn darparu ystod o gyfleoedd buddiol i ddysgwyr wella eu dealltwriaeth o faterion ADCDF. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn dosbarth gwniadwaith yn dysgu am gynhyrchu tecstilau organig, lles cyflogeion, ac ailgylchu defnyddiau. Mae dysgwyr gofal gwallt yn ailgylchu cynhyrchion ac yn dysgu sut i ddefnyddio deunydd gwastraff mewn trin gwallt.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth bynciol dda gan bron pob un o'r tiwtoriaid. Maent yn cadw ffeiliau trefnus lle byddant yn cofnodi addysgu ac asesu yn effeithiol. Mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ar gyfer dysgwyr, ac maent yn cynllunio ac yn cyflwyno sesiynau heriol sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd da iawn. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, fel llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol, ac yn eu hymgorffori yn eu haddysgu lle bo'n briodol. Mae ychydig o diwtoriaid yn cynnwys y Gymraeg ac yn archwilio treftadaeth Cymru yn effeithiol mewn sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gweithio ar y cyd ac yn gweithio'n effeithiol gyda chynorthwywyr cymorth dysgu i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o weithgareddau addysgu a dysgu, trafod a dadlau, ymchwilio, datrys problemau a meddwl yn greadigol, sy'n cael eu trefnu'n dda ac yn helpu dysgwyr i adeiladu eu dealltwriaeth a'u medrau yn y pwnc yn gydlynus. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod o dechnegau holi effeithiol sy'n helpu dysgwyr i archwilio syniadau, yn ogystal â herio a datblygu'u meddwl. Mewn ychydig iawn o sesiynau llai effeithiol, mae rhediad sesiynau yn rhy araf ac yn cael eu harwain yn ormodol gan yr athro.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio adnoddau ysgogol o ansawdd da i ysgogi trafodaeth a dysgu. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae adnoddau wedi'u cynhyrchu'n wael ac yn anodd eu defnyddio. Mewn ychydig iawn o achosion, mae rhywfaint o'r wybodaeth a gyflwynir wedi dyddio.

At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn rhoi ystyriaeth dda iawn i'r targedau y mae dysgwyr yn eu cofnodi yn eu cynlluniau dysgu unigol ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod gan ddysgwyr. Mae hyn yn arbennig o gadarn ym maes medrau byw'n annibynnol, ac mae'n nodwedd ragorol. O ganlyniad, mae bron yr holl ddysgwyr yn aros ar gyrsiau ac yn ennill cymwysterau priodol. Mae gan bob tiwtor bron wybodaeth dda am lwybrau dilyniant ac maent yn annog dysgwyr i symud i gyrsiau lefel uwch pan fyddant wedi cwblhau eu cwrs.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu adborth llafar da i ddysgwyr yn ystod sesiynau i'w helpu i wella. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'r meini prawf asesu a chynlluniau marcio yn effeithiol i ddarparu adborth ysgrifenedig strwythuredig i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn creu digon o gyfleoedd i ddysgwyr arfarnu eu gwaith eu hunain na gwaith cyfoedion yn ddigon rheolaidd. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn defnyddio deilliannau asesu yn dda i lywio cynllunio sesiynau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae darpariaeth y bartneriaeth yn hyrwyddo ystod briodol o gyrsiau ffordd o fyw adfer costau, sy’n cyfrannu at les disgyblion yn cynnwys turnio coed, crefft siwgr, a gwniadwaith.  Mae’r bartneriaeth hefyd yn cynnig ystod eang o gyrsiau sy’n helpu dysgwyr nad ydynt wedi cael profiadau da o ddysgu blaenorol i gyflawni medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae’r holl bartneriaid yn cynhyrchu eu llyfrynnau cyrsiau eu hunain.  Mae’r rhain yn amrywio o ran eu gwybodaeth am sut i gofrestru, a pha offer sydd ei angen er mwyn cwblhau’r cwrs.  Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, mae staff gweinyddol ym mhob un o’r canolfannau dysgu yn cael mynediad i siartiau llif cwricwlwm a gallant gynghori darpar ddysgwyr am gyrsiau sydd ar gael ar draws y bartneriaeth.

Mae’r bartneriaeth yn cynllunio’n dda i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn monitro cyfraddau cwblhau llwyddiannus y dysgwyr hyn.  Mae canlyniadau’r dysgwyr hyn yr un fath â rhai eu cyfoedion.  Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid wedi ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o fedrau hanfodol.  O ganlyniad, maent yn gallu nodi dysgwyr ag anghenion medrau hanfodol yn well a’u cyfeirio at y tîm medrau hanfodol.  Mae’r holl ddysgwyr lefel 2 a 3 yn ymgymryd ag ymarferiad ysgrifennu rhydd fel rhan o’u haseiniad cyntaf er mwyn helpu nodi anghenion medrau hanfodol.  Mae tiwtoriaid yn trafod y rhain gyda’r dysgwr ac yn cynnig cymorth fel bo’r angen.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol yn eu lle gan bob partner unigol, ac mae pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu.  Ceir siart llif defnyddiol yn llawlyfrau’r tiwtoriaid, sy’n esbonio gweithdrefnau adrodd am ddiogelu yn dda.  Fodd bynnag, nid yw datgeliadau a’r modd y caiff y rhain eu prosesu yn y cam cychwynnol hwn yn cael eu nodi’n ffurfiol.  Mae hyn yn effeithio ar allu’r bartneriaeth i fonitro ac olrhain canlyniadau adroddiadau neu i nodi anghenion hyfforddiant diogelu staff.  Mae’r Rheolwr Addysg Gymunedol yng Ngholeg Gwent yn aelod o bwyllgor diogelu Coleg Gwent ac mae’n lledaenu gwaith y pwyllgor i holl aelodau’r bartneriaeth ar lefel weithredol.  Fodd bynnag, nid oes unrhyw fecanwaith ffurfiol i adrodd am faterion diogelu i fwrdd strategol y bartneriaeth.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae’r bartneriaeth yn hyrwyddo ethos o gydraddoldeb ac amrywiaeth, drwy ei chwricwlwm a thrwy ystod, ansawdd a lleoliad ei hadeiladau.  Mae ethos y bartneriaeth yn gefnogol a theg ar bob lefel, ac mae’n galluogi dysgwyr o bob cefndir i gael mynediad i adeiladau ac adnoddau o ansawdd uchel.

Mae gan y bartneriaeth gyfan lawlyfr ymsefydlu defnyddiol i ddysgwyr sy’n cynnwys adran addasadwy, y gall pob partner ei theilwra ar gyfer eu gofynion penodol eu hunain.  Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol eu hunain gan bob partner.  Mae’r bartneriaeth yn defnyddio holiaduron yn effeithiol i fonitro canfyddiadau dysgwyr o’u cyrsiau a’r amgylchedd dysgu.  Mae bron pob myfyriwr yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu mewn canolfannau.

Mae'r bartneriaeth yn mynd ati i gefnogi dysgwyr i ddatblygu clybiau a chymdeithasau i barhau â'u diddordebau y tu allan i ddarpariaeth ffurfiol y bartneriaeth. Lle mae cyrsiau ffordd o fyw yn cael eu cynnig gan y bartneriaeth ar sail adfer costau, gall dysgwyr ar incymau is dalu mewn rhandaliadau, gan leihau baich ffi cofrestru ar gyrsiau.

Ceir darpariaeth SSIE dda ar draws y bartneriaeth, gan gefnogi ystod amrywiol o grwpiau ethnig sy'n byw yn yr ardal. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i chanolfannau yn effeithiol iawn i fodloni anghenion dysgwyr amrywiol eu diwylliant; gan gynnwys darparu dosbarthiadau menywod yn unig a lleoli dosbarthiadau mewn canolfannau ger ysgolion fel bod mamau'n gallu mynychu dosbarthiadau ar ôl gollwng eu plant yn yr ysgol.

Mae amrywiaeth eang o adeiladau o ansawdd da ar draws y bartneriaeth, o ganolfannau addysg gymunedol wedi'u hadeiladu'n bwrpasol i sefydliadau hŷn. Mae ychydig o ganolfannau yn rhai o safon uchel eithriadol. Mae canolfannau mewn sefyllfa dda i fodloni anghenion eu cymunedau ac maent yn darparu amgylchedd da iawn ar gyfer dysgu. Mae adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw yn dda, wedi'i dodrefnu a'u haddurno'n dda, a cheir mynediad da i bobl anabl. Ceir adnoddau da yn y rhan fwyaf o ystafelloedd, ac mae byrddau gwyn rhyngweithiol a thechnolegau addysgu a dysgu defnyddiol, fel cyfrifiaduron llechen, mewn llawer ohonynt. Mae cyfrifiaduron yn gyfoes ac mae ganddynt feddalwedd briodol sy'n benodol i gyrsiau.

Mae staff sy'n gyson groesawgar, gwybodus ac yn barod eu cymorth ym mhob lleoliad. Mae posteri yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu harddangos yn y rhan fwyaf o ganolfannau, yn ogystal â gwybodaeth am raglenni a chyrsiau sydd ar gael. Caiff gwaith myfyrwyr ei arddangos yn gyhoeddus mewn llawer o ganolfannau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae bwrdd strategol y bartneriaeth yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r bwrdd yn rhoi ffocws cryf ar recriwtio dysgwyr o ardaloedd blaenoriaeth, ar ddeilliannau dysgwyr ac ar fodloni blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn cydbwyso'r ffocws hwn â chydnabyddiaeth realistig o oblygiadau ariannol yr hinsawdd economaidd bresennol.

Mae'r bwrdd strategol yn gwbl gynrychioliadol o'r holl bartneriaid o fewn y ddarpariaeth. Mae pob aelod o'r bwrdd strategol yn dod â safbwynt perthnasol o gynllun integredig sengl eu sir i'r bartneriaeth. Mae hyn yn helpu'r bwrdd i gynnal un hunaniaeth tra'n darparu ar gyfer proffiliau a nodweddion unigol y pum sir dan sylw.

Mae'r bwrdd strategol yn darparu arweinyddiaeth glir ar gyfer y bartneriaeth. Mae'r bwrdd yn cyflwyno lefel addas o her, ac mae'n gyfrifol am osod targedau ar gyfer y meysydd blaenoriaeth. Mae aelodau'r bwrdd yn gosod tôn addas ar gyfer y bartneriaeth, ac mae eu brwdfrydedd a'u hymagwedd realistig yn gosod ethos cadarn o gydweithredu.

Mae'r bwrdd yn cymeradwyo strwythur cynhwysfawr o grwpiau, is-grwpiau a grwpiau gorchwyl. Mae rolau'r grwpiau hyn yn glir, a cheir llinellau cyfathrebu wedi'u diffinio'n bendant rhyngddynt. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol. Mae holl aelodau'r bwrdd a'r grwpiau yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, a hefyd y llinellau atebolrwydd.

Mae gan aelodau'r grŵp gweithredol ddealltwriaeth drylwyr o anghenion y dysgwyr ac ansawdd y cyrsiau a ddarperir yn eu siroedd. Maent yn dod â'r wybodaeth hon ynghyd i ffurfio dull partneriaeth cydlynus o gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau gwelliannau i'r dull o gyflwyno cyrsiau.

Cynhelir cyfarfodydd mynych ar gyfer pob un o'r grwpiau, a chânt eu cynllunio'n briodol. Caiff cofnodion yr holl gyfarfodydd eu dosbarthu i'r partïon perthnasol. Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o grwpiau agenda amrywiol ym mhob cyfarfod. Er bod hyn yn eu galluogi i fynd i'r afael â materion cyfredol yn rhwydd, mae hefyd yn rhwystro cofnodi ac olrhain sut, ble a phryd yr aethpwyd i'r afael â chamau gweithredu yn deillio o'r cofnodion.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn rhoi ffocws manwl ar wella safonau a gyflawnir gan bob dysgwr. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ddata'r bartneriaeth i arfarnu perfformiad y darparwyr unigol ac i osod blaenoriaethau strategol a gweithredol ar gyfer gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr.

Mae datblygu staff yn flaenoriaeth uchel wrth gynllunio gwelliant. Mae'r bartneriaeth wedi rhoi cynllun hyfforddi buddiol ar waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion tiwtoriaid. Mae disgwyliad uchel gan arweinwyr ar bob lefel ar gyfer ansawdd safonau perfformiad staff a sut yr eir i'r afael â thanberfformiad.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer casglu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â'i gwaith. Mae'n defnyddio prosesau manwl ar gyfer hunanasesu a gwella ansawdd sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar ei gwaith. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yng nghyfraddau llwyddo dysgwyr ac wedi gwella cysondeb addysgu a dysgu ar draws y pum partner.

Mae gweithdrefnau cadarn gan y bartneriaeth ar gyfer asesu ei pherfformiad, a gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr ac ansawdd yr addysgu. Mae proses yr adroddiad hunanasesu yn cynnwys pob partner. Defnyddir tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau gan yr adroddiad, yn cynnwys barnau dysgwyr, arsylwadau athrawon, ac adolygiadau o gyrsiau. Mae adroddiad hunanarfarnu'r bartneriaeth yn fanwl ond yn ddisgrifiadol yn aml, ac mewn rhai adrannau ceir diffyg eglurder yn ei arfarniad o berfformiad y bartneriaeth.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn ddogfen glir sy'n cefnogi'r adroddiad hunanasesu yn dda, ac mae'n cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r cynllun yn nodi meysydd i'w gwella yn glir, fel gwneud yn siŵr bod tiwtoriaid yn datblygu llythrennedd dysgwyr a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu ac yn defnyddio proses gadarn i gefnogi gwella ansawdd. Mae'r Fenter Gwella Canlyniadau wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran cynyddu cyfraddau dysgwyr o ran cyflawni cymwysterau a chwblhau cyrsiau. Mae'r fenter hon yn adolygu ystod eang o wybodaeth, fel ansawdd addysgu a dysgu, presenoldeb ac adborth dysgwyr. Pan gaiff tanberfformiad ei nodi, rhoddir cymorth priodol ar waith.

Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei gweithdrefnau sicrhau ansawdd ymhellach, drwy gyflwyno pum cydlynydd datblygiad a chymorth. Mae cyfrifoldeb gan y cydlynwyr hyn am adolygu, monitro a datblygu agweddau allweddol ar y ddarpariaeth ar draws y bartneriaeth. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys cynnal arsylwadau o addysgu ar draws y bartneriaeth, cyflwyno hyfforddiant staff, datblygu adnoddau addysgu a dysgu ar-lein a darparu cymorth i gyrsiau a nodwyd drwy'r fenter gwella canlyniadau. Mae'r cyfuniad o'r fenter gwella canlyniadau a'r cydlynwyr datblygiad a chymorth wedi bod yn effeithiol iawn o ran lleihau nifer y cyrsiau sy'n tanberfformio a chodi safonau ar gyfer dysgwyr.

Mae rheolwyr a thiwtoriaid yn defnyddio proses fanwl ar gyfer adolygu cyrsiau yn flynyddol i ddadansoddi perfformiad pob cwrs. Mae'r adolygiad manwl hwn yn cipio ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys safonau dysgwyr, datblygiad llythrennedd dysgwyr ac ansawdd yr addysgu. Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei system arsylwi addysgu. Cynhelir arsylwadau blynyddol o'r holl diwtoriaid ar draws y bartneriaeth, ac ar ôl hynny maent yn elwa ar gael adborth ysgrifenedig a llafar buddiol ar eu perfformiad a sut gellir ei wella. Mae'r bartneriaeth wedi gwella ei gweithdrefnau arsylwi ymhellach drwy ddatblygu rhaglen hyfforddi, mewn cydweithrediad â sefydliad dyfarnu, i wella medrau arsylwyr ac achredu eu datblygiad.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth yn ymgymryd ag ystod dda o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus priodol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ffocws cadarn ar wella ansawdd addysg ar draws y bartneriaeth, a chânt eu cynllunio ar sail gwybodaeth a dderbynnir o adolygiadau o gyrsiau ac arsylwadau o wersi. Mae'r bartneriaeth yn darparu cyfleoedd priodol ar gyfer rhannu arfer dda, yn enwedig mewn addysgu a dysgu.

Mae'r bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth dda i farnau dysgwyr, sy'n cwblhau ystod fuddiol o holiaduron boddhad ynglŷn â'u cwrs. Mae rheolwyr yn dadansoddi'r ymatebion i'r holiaduron, a chaiff dysgwyr eu diweddaru ynghylch unrhyw gamau gweithredu drwy'r fforwm dysgwyr a thrwy hysbysiadau 'dywedoch chi, gwnaethon ni'.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ystod arolygiad diwethaf Estyn yn 2009.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r bwrdd strategol yn cynnwys penderfynwyr allweddol o Goleg Gwent a'r pum awdurdod unedol, ac mae ganddo weledigaeth ar y cyd ar gyfer y bartneriaeth. Mae'r darparu arweiniad strategol clir iawn, ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'r grŵp gweithredol a'r bartneriaeth yn gyffredinol. Mae strategaeth glir gan y bartneriaeth ar gyfer gweithio gydag ystod eang iawn o bartneriaid ar draws y pum sir i gyflawni ei hamcanion strategol.

Mae gan y bartneriaeth strwythur effeithiol ar gyfer cynllunio ar y cyd. Mae'r grŵp gweithredol yn sicrhau cysondeb o ran sicrhau ansawdd, cynllunio adnoddau a chyflwyno rhaglenni cydlynus a chymorth ar gyfer dysgu.

Mae safbwynt traws-sirol clir gan y bartneriaeth ar lefel strategol, gweithredol a chyflwyno. Mae partneriaid yn gweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd ac maent wedi datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb ar y cyd. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn gydag ystod o asiantaethau ymgysylltu, yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, y Ganolfan Byd Gwaith a chymdeithasau tai sy'n cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth y bartneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth amlasiantaeth hwn wedi arwain at fwy o gofrestriadau mewn ardaloedd sydd â'r lefel amddifadedd uchaf ac ar gyrsiau blaenoriaeth, fel medrau hanfodol.

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda iawn hefyd gyda byd busnes, y sector cyhoeddus ac asiantaethau gwirfoddol i ddarparu cyrsiau galwedigaethol neu ymgysylltu arbenigol. Ymhlith yr enghreifftiau ceir cwrs ar ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau mewn cydweithrediad ag ystod o bartneriaid a 'A taste of Station 32', sef cwrs ymgysylltu a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf Torfaen, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan diwtoriaid a chynorthwywyr addysgu brofiad addas yn y pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn meddu ar gymwysterau addysgu priodol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i gynyddu nifer y tiwtoriaid sydd â chymwysterau medrau hanfodol arbenigol. Mae tiwtoriaid yn diweddaru'u gwybodaeth bynciol ac yn gweithio'n dda i wella eu medrau haddysgu. Darperir lleoliadau hyfforddi o ansawdd da i fyfyrwyr yn dilyn Lefel 3 a chymwysterau medrau hanfodol arbenigol Lefel 5.

Mae ansawdd y rhan fwyaf o leoliadau'r cyrsiau yn dda iawn. Mae partneriaid wedi gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol i wella ansawdd yr adeiladau a'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn lleoliadau aml-ddefnydd ac maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu a gwasanaethau awdurdod lleol. Ceir strategaethau clir yn y rhan fwyaf o bartneriaethau ar gyfer diweddaru adnoddau TGCh yn rheolaidd. Er bod ychydig o ganolfannau wedi cau, mae'r bartneriaeth wedi cymryd gofal i leihau'r effaith ar ddysgwyr gymaint ag y bo modd.

Mae'r bartneriaeth wedi canolbwyntio'i strategaeth, ei darpariaeth a'i strwythur cymorth gweinyddol yn glir o amgylch meysydd blaenoriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae gan bob partner dargedau perfformiad clir sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r blaenoriaethau.

Mae datganiad sefyllfa gan y bartneriaeth sy'n pennu meintiau grŵp disgwyliedig. Mae rheolwyr gweithredol yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â pha ddosbarthiadau ddylai gael eu cynnal o fewn y gyllideb gyffredinol. Mae partneriaid yn gweithio'n dda â'i gilydd i leihau effaith cau dosbarthiadau ar y cwricwlwm sydd ar gael i ddysgwyr. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran trawsnewid dosbarthiadau mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth yn gyrsiau adfer cost lawn neu glybiau. Mae'r dull hwn yn sicrhau cynnal ehangder y ddarpariaeth.

Mae rheolwyr gweithredol o bum sir y bartneriaeth a Choleg Gwent yn gweithio'n effeithiol ac yn gydweithredol i reoli adnodd y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth wedi symud i sefyllfa lle mae'n rhannu marchnata a hysbysebu, ac yn recriwtio a defnyddio tiwtoriaid ar draws ffiniau siroedd, gan wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae deilliannau ar gyfer y bartneriaeth yn dda, ac mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth da am arian ar gyfer ei dysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio pob un o'n harolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Llais y Dysgwr yn arolwg boddhad dysgwyr a gynhelir gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr ynglŷn â'r themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir iddynt
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi
- boddhad cyffredinol

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr radio perfformiad eu darparwr.

Cwblhawyd yr arolwg rhwng Rhagfyr 2013 a Chwefror 2014 gan 1,383 o ddysgwyr sy'n oedolion ym mhartneriaeth DOG Gwent. Roedd 361 o'r ymatebwyr yn ddynion, a 953 yn fenywod, gyda 69 arall na phennwyd eu rhyw yn yr arolwg. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai o dan 45 oed a'r rhai dros 45 oed. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o gefndiroedd ethnig gwyn. Roedd y niferoedd mwyaf o ymatebwyr yn dilyn cyrsiau mewn ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a'r celfyddydau, cyfryngau a chyhoeddi.

Dywedodd 59% o ymatebwyr fod y bartneriaeth yn dda iawn yn gyffredinol. Mae hyn yn is na chyfartaledd y sector, sef 64%. Dywedodd 31% arall fod y bartneriaeth yn dda yn gyffredinol. Credai 95% o ymatebwyr fod eu cwrs yn well nag oeddent yn disgwyl. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y sector, sef 93%.

Roedd canran yr ymatebwyr a roddodd sgôr da iawn i'r bartneriaeth yn is na chyfartaledd y sector ar gyfer pob un o'r pum thema allweddol ac ar draws y mwyafrif o'r cwestiynau yn yr arolwg. Rhoddodd 93% o ymatebwyr sgôr da neu da iawn i'r addysgu a'r dysgu.

Fe wnaeth mwyafrif o ymatebwyr roi sgôr da iawn i'w pynciau mewn pump o wyth o feysydd pynciau'r sector. Dim ond un maes pwnc y sector – sef ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant – a gafodd sgôr uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y saith o feysydd pynciau eraill y sector yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r arolwg hefyd yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig - rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Mae'r bartneriaeth yn cyflawni sgorau 'da iawn' naill ai ar gyfradd ychydig islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol neu yn union yr un fath â'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer pob un o'r nodweddion demograffig allweddol. Mae canran yr ymatebwyr ar draws yr holl nodweddion demograffig allweddol sy'n dweud bod eu cyrsiau yn well nag oeddent yn disgwyl tua'r un fath â'r cyfartaleddau cenedlaethol yn gyffredinol, ac eithrio

dysgwyr o dan 25 oed, sy’n adrodd bod eu cwrs yn well na’r disgwyl ar gyfradd o naw pwynt canran uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Derbyniodd y bartneriaeth ryw 800 o sylwadau gair am air. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â’u tiwtoriaid a safon y gwaith paratoi a’r cymorth y maent yn ei gael ganddynt. Hefyd, roedd ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â’r adeiladau, lleoliad cyfleus lleoliadau, y medrau y maent wedi’u dysgu a buddion eu dysgu.

Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr yn meddwl fod angen gwneud unrhyw welliannau i’w dosbarth neu ddysgu. Serch hynny, awgrymwyd gwelliannau gan ychydig o ymatebwyr, a oedd yn cynnwys:

- amseru dosbarthiadau
- parcio a mynediad i rai ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau
- gwella’r wybodaeth ac arweiniad am gyrsiau
- addasrwydd a chynllun ystafelloedd
- gwella ansawdd rhywfaint o offer (e.e. cyfrifiaduron a meddalwedd)
- lleihau faint o waith gweinyddol sy’n gysylltiedig â chyrsiau

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Steve Bell | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Sian Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Maggie Carr | Arolygydd Cymheiriaid |
| Phil Southard | Arolygydd Cymheiriaid |
| Betty Mason | Arolygydd Cymheiriaid |
| Pam Hales | Enwebai |